# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 4**

COSBAU O DAN Y DDEDDF HON

*Cosbau sy'n ymwneud â chofrestru*

**65 Esgus rhesymol dros beidio â chydymffurfio**

(1) Os yw person sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy yn groes i adran 35(1) yn bodloni ACC neu (drwy apêl) y tribiwnlys fod esgus rhesymol am y toriad, nid yw'r person yn agored i gosb o dan adran 64 mewn cysylltiad â'r toriad.

(2) At ddibenion yr adran hon—

(a) pan fo person yn dibynnu ar berson arall i wneud unrhyw beth, nid yw hynny'n esgus rhesymol oni bai bod y person cyntaf wedi cymryd gofal rhesymol i osgoi'r toriad;

(b) pan fu gan berson esgus rhesymol am doriad ond bod yr esgus wedi dod i ben, mae'r person i'w drin fel pe bai wedi parhau i fod â'r esgus os yw'r toriad yn cael ei unioni heb oedi afresymol ar ôl i'r esgus ddod i ben.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 65 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 65 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 65.